




Llywodraeth y DU



easy
read

Rydw i'n ysgrifennu i ddweud beth rydyn ni'n wneud am y Coronafeirws.



Mae'r coronafeirws yn salwch newydd sy'n symud yn gyflym ar draws y byd.



Bydd llawer o bobl yn dal coronafeirws.



Fydd y rhan fwyaf o bobl ddim yn mynd yn wael iawn.



Bydd rhai pobl yn mynd yn wael iawn ac yn gorfod mynd i'r ysbyty.

Bydd rhai pobl yn marw.



Rydym ni wedi dweud bod rhaid i bobl aros gartref ac i ffwrdd o bobl eraill.

Rhaid aros yn y tŷ i arafu'r coronafeirws.



Mae hyn yn anodd iawn i ni i gyd, ond mae'n bwysig bod pawb yn dilyn y rheolau.



Os bydd gormod o bobl yn dal y salwch ar yr un pryd, fydd y Gwasanaeth Iechyd ddim yn gallu helpu pawb a bydd mwy o bobl yn marw.

Rhaid i chi aros gartref



Peidiwch â mynd i weld ffrindiau neu deulu sydd ddim yn byw gyda chi.

Peidiwch â mynd allan, heblaw:



- I brynu bwyd neu i gasglu moddion.




- I wneud ymarfer corff, unwaith y dydd.



- I gael help meddygol.



I deithio i'r gwaith - os yw'n gwbl amhosibl ichi weithio gartref.



Os ydych yn gadael y tŷ, rhaid ichi aros 2 fetr neu 6 troedfedd i ffwrdd o bobl eraill.



Rhaid ichi ddilyn y rheolau hyn.

Bydd yr heddlu'n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau.



Mae pobl yn poeni am arian

Rydym ni wedi gwneud llawer i helpu pobl sy'n poeni am arian.



Mae mwy o wybodaeth ar y wefan:
www.gov.uk/coronavirus



Gwneud y pethau cywir

Rydym ni'n gwneud y pethau cywir ar yr amser cywir.



Rydym ni'n gwrando ar y doctoriaid a'r gwyddonwyr.

Ond rydym ni'n gwybod y bydd pethau'n mynd yn waeth cyn mynd yn well.



Trwy ddilyn y rheolau, byddwch yn helpu i achub bywydau.



Diolch yn fawr

Diolch yn fawr i bawb sy'n gweithio'n galed i guro'r Coronafeirws.



Yn enwedig pawb sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd ac yn gofalu am bobl eraill.



Gyda'n gilydd gallwn guro Coronafeirws

Os yw pawb yn dilyn y rheolau a gweithio gyda'n gilydd, gallwn guro'r salwch hwn.



Mae pawb yn gallu gwneud rywbeth i helpu – arhoswch gartref i ddiogelu'r Gwasanaeth Iechyd.

Oddi wrth,

Boris Johnson
Y Prif Weinidog